# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Cofnodion (HWLG(3)-01-10)

**Dyddiad: Dydd Iau 14 Ionawr 2010**
**Amser: 9.15 - 11.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Darren Millar, Gorllewin Clwyd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Andrew R. T. Davies, Canol De Cymru
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Helen Mary Jones, Llanelli
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Val Lloyd, Gorllewin Abertawe

### Yn bresennol

Judith Davis, Pennaeth Gwasanaethau Clinigol a Rhanbarthol, Whizz-Kidz
Sally Waters, Rheolwr Materion Cyhoeddus, Whizz-Kidz
Glenys Evans, Cydgysylltydd Cymorth i Deuluoedd, Bobath Cymru
Catriona Williams, Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru
Catherine Lewis, Swyddog Datblygu Rhoi Plant yn Gyntaf (Plant Anabl), Plant yng Nghymru
Andrea Storer, Plant yng Nghymru

### Staff y Cynulliad

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor
Sarita Marshall, Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Carolyn Eason, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (eitem 4)
Siân Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (eitem 5)

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Irene James; nid oedd unrhyw ddirprwyon.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Marc Wyn Jones fel Clerc newydd y Pwyllgor, a diolchodd i Claire Morris, cyn Glerc y Pwyllgor, am ei gwaith.

### Eitem 2: Ymchwiliad i wasanaethau cadeiriau olwyn: tystiolaeth gan grwpiau plant

HWLG(3)-01-10-p1
HWLG(3)-01-10-p2

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan y Pwyllgor.

#### Cam gweithredu

Whizz-Kidz i ddarparu copi i'r Pwyllgor o'r asesiad o'i brosiect peilot gydag ymddiriedolaeth gofal sylfaenol Tower Hamlets.

### Eitem 3: Ymchwiliad i wasanaethau cadeiriau olwyn: tystiolaeth gan grwpiau plant

HWLG (3)-01-10-p3

3.1 Darllenwyd cyflwyniad gan ddefnyddiwr cadair olwyn ifanc, Lee Ellery, i'r Pwyllgor.

3.2 Ymatebodd y tyst i gwestiynau gan y Pwyllgor.

#### Camau gweithredu

Y clercod i drefnu sesiwn anffurfiol gyda Lee Ellery a defnyddwyr cadeiriau olwyn eraill.

Y clercod i anfon llythyr i ddiolch i Lee Ellery am ei gyflwyniad.

## Sesiwn breifat

### Eitem 4: Papur materion allweddol ar gyfer yr ymchwiliad i wasanaethau strôc

HWLG(3)-01-10-p4

4.1 Cynigiodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 10.37(vi), yn penderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod eitemau 4 a 5.

4.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnig.

**Cam gweithredu**

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i gynnwys y wybodaeth ychwanegol a awgrymwyd gan y Pwyllgor yn y papur.

Y Clerc i ddosbarthu'r argymhellion drafft fel y gall Aelodau wneud sylwadau arnynt.

### Eitem 5: Papur Cwmpasu ar Ddiogelu Plant

HWLG(3)-01-10-p5

**Cam gweithredu**

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i gyflwyno papur cwmpasu pellach ar ddiogelu byrddau plant.

### Eitem 6: Papur i'w nodi

**Papur**

HWLG(3)-01-10-p6: Y Groes Goch Brydeinig: ceisiadau am gadeiriau olwyn yn y DU

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Ionawr 2010**